**EITEM AR YR AGENDA: 12**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**13 Chwefror 2017**

**CYNLLUN PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN 2015-**
**HER GYFREITHIOL I'R AMDDIFFYNIAD TROSIANNOL**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1. Rhoi gwybod i'r Aelodau am hynt yr her gyfreithiol a thynnu sylw at y goblygiadau posibl i'r Awdurdod Tân ac Achub.

## Cefndir

2. Yn 2015, cafodd y ddau Gynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân a oedd yn bodoli ar y pryd, sef cynlluniau 1992 a 2006, eu cau gan y llywodraeth ganolog a chafodd pob diffoddwr tân ei drosglwyddo i gynllun pensiwn newydd, sef cynllun pensiwn y diffoddwyr tân 2015 (cynllun FPS 2015). Cafodd rhai diffoddwyr tân, a oedd ymhellach ymlaen yn eu gyrfaoedd, hawl i aros yn eu cynllun pensiwn gwreiddiol dan drefniadau amddiffyniad trosiannol.

3. Fe wnaeth Undeb yr FBU herio'r llywodraeth mewn perthynas â'r amddiffyniad trosiannol ar y sail ei fod yn gwahaniaethu ar sail oedran, gan ymgorffori hawliadau eraill hefyd ynglŷn â hil, rhywedd a chyflog cyfartal.

4. Er bod hyn yn ymddangos ar yr olwg gyntaf fel anghydfod rhwng y llywodraeth ganolog ac Undeb yr FBU, cyflwynwyd hawliadau hefyd yn erbyn pob un o'r 50 o Awdurdodau Tân ac Achub yn y Deyrnas Unedig fel cyflogwyr a fu'n gweithredu'r trefniadau trosiannol hyn.

## Gwybodaeth

5. Yng Ngorffennaf 2015, fe wnaeth Cyflogwyr Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub gynnig paratoi i reoli'r hawliadau hyn ar ran yr holl ATAau. Roedd hyn yn cynnwys penodi cynrychiolaeth gyfreithiol a chysylltu a'r DCLG (yr adran cymunedau a llywodraeth leol) ac Undeb yr FBU fel yr oedd yn briodol. Roedd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cydnabod bod manteision i gael dull ar y cyd ac aeth i gytundeb i rannu'r costau er mwyn cael y gwasanaethau hyn.

6. Sefydlwyd pwyllgor llywio i oruchwylio'r ymgyfreitha, a phenodwyd y PSTC Simmons i gynrychioli ATAau Cymru ar y pwyllgor hwnnw.

7. Mae hyn wedi arwain at wrandawiad tribiwnlys cyflogaeth a gynhaliwyd rhwng 9fed a 23ain Ionawr 2017. Rhagwelir y bydd hi'n 6 i 8 wythnos cyn cyhoeddi penderfyniad y barnwr.

8. Os bydd y barnwr yn dyfarnu o blaid hawliad Undeb yr FBU ynghylch camwahaniaethu, bydd gan yr ATAau 42 diwrnod i benderfynu a ydynt am fynd i apêl ai peidio, ochr yn ochr â'r DCLG.

## Y Goblygiadau Posibl

9. Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru eisoes wedi cytuno i dalu ei gyfran o'r costau cyfreithiol (ar sail nifer y diffoddwyr tân a gyflogir) hyd at ddiwedd cyfnod y tribiwnlys cyflogaeth, a bydd yn rhaid iddo benderfynu a yw am fynd i apêl os bydd y barnwr yn dyfarnu o blaid yr hawlydd.

10. Os dyfernir, ar ddiwedd y broses gyfreithiol, fod y trefniadau trosiannol yn gamwahaniaethol, gallai'r llywodraeth ganolog benderfynu tynnu pob amddiffyniad trosiannol ymaith a'r awdurdodau tân ac achub fydd yn gyfrifol am dalu cost unrhyw iawndal i'r gweithwyr hynny y camwahaniaethwyd yn eu herbyn. Nid oes sicrwydd eto faint y gallai hyn ei gostio nac ychwaith beth fydd amseriad y taliad. Fe fydd, fodd bynnag, yn effeithio ar gyllideb refeniw'r ATA.

11. Yr hyn na phenderfynwyd yn ei gylch eto yw unrhyw newid a allai ddigwydd i broffil y gweithlu o ganlyniad i gael gwared ar yr amddiffyniad trosiannol.

## Argymhelliad

12. Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad hwn.